# Gweithio gyda theuluoedd mewn cymunedau

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi’r gofynion ar gyfer cefnogi teuluoedd mewn cymunedau pan fydd angen gofal neu gymorth arnynt.  Mae hyn yn cynnwys datblygu perthnasoedd a gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd i gael gafael ar wybodaeth, gwasanaethau a chymorth cymunedol sy’n berthnasol i ddewisiadau, anghenion a chanlyniadau’r teulu.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. adnabod y ffactorau emosiynol, cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n effeithio ar deuluoedd a pharchu eu profiadau a'u safbwyntiau cyfunol
2. adnabod a hybu'r gwahanol rolau o fewn teuluoedd a rhwydweithiau cymunedol
3. gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd i adnabod a chytuno ar ddisgwyliadau, ffiniau a chanlyniadau ar gyfer eu gofal neu gymorth
4. annog teuluoedd i adnabod meysydd o gryfder, risg a gwydnwch
5. gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd i gynllunio'r gofal neu gymorth sydd ei hangen arnynt i gyflawni canlyniadau
6. gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd i adnabod a chael gafael ar yr adnoddau, yr wybodaeth, y gwasanaethau a'r cymorth cymunedol sydd ar gael
7. mynd ati gyda theuluoedd i archwilio'r cymhellion dros gyflawni canlyniadau ac effaith newid yn eu bywydau
8. cefnogi teuluoedd i osod meini prawf a chamau gweithredu ar gyfer monitro a gwerthuso canlyniadau
9. cytuno ar sut y bydd cynlluniau'n cael eu cofnodi a'u rhannu, a phwy sy'n gallu cael mynediad at yr wybodaeth
10. cefnogi teuluoedd ac eraill i weithredu a monitro cynlluniau yn erbyn canlyniadau
11. gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd ac eraill i werthuso cynlluniau yn erbyn canlyniadau
12. adnabod ac atgyfnerthu ymdrechion, cryfderau a chynnydd tuag at ganlyniadau mewn cymunedau
13. grymuso teuluoedd i fynd i'r afael â heriau o ran cyflawni canlyniadau mewn cymunedau
14. cefnogi teuluoedd i adolygu ansawdd y gofal, y cymorth a'r gwasanaethau
15. adnabod newidiadau i gynlluniau a chanlyniadau gyda theuluoedd ac eraill, a mynd i'r afael â nhw
16. cwblhau'r cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer gweithio gyda theuluoedd mewn cymunedau
17. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau wrth weithio gyda theuluoedd mewn cymunedau

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. gwahanol rolau unigolion o fewn teuluoedd a chymunedau
2. natur a strwythur amrywiol teuluoedd, gan gynnwys cyd-destunau diwylliannol a chefndirol gwahanol, a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar ddeinameg teulu a'r gymuned
3. y math o adnoddau, gwybodaeth, gwasanaethau sydd ar gael i deuluoedd a sut y gellir cael gafael arnynt
4. strategaethau i gefnogi teuluoedd i adeiladu rhwydweithiau cymorth yn y gymuned
5. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma wrth weithio gyda theuluoedd mewn cymunedau
6. sut mae defnyddio dulliau cyfathrebu cynhwysol i feithrin perthynas agored a pharchus y gellir ymddiried ynddi gyda theuluoedd
7. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth weithio gyda theuluoedd mewn cymunedau
8. y ffactorau emosiynol, cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n effeithio ar deuluoedd a chymunedau
9. rôl cysylltiadau cymunedol o ran cefnogi llesiant ac anghenion cymdeithasol, emosiynol ac economaidd
10. ffyrdd o hwyluso profiadau a safbwyntiau unigol a chyfunol
11. y newidiadau y gall teuluoedd profiadu mewn cymunedau
12. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar weithio gyda theuluoedd mewn cymunedau
13. sut mae cynorthwyo rheoleiddio emosiynol teuluoedd mewn cymunedau
14. pwysigrwydd cytuno ar ddisgwyliadau, ffiniau a chanlyniadau gyda theuluoedd
15. y cysylltiad rhwng disgwyliadau teuluoedd a'u dealltwriaeth o gryfderau, risgiau a ffactorau gwydnwch
16. sut mae defnyddio dyfeisiau ac adnoddau digidol i weithio gyda theuluoedd mewn cymunedau
17. pwysigrwydd ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth a'r defnydd o fodelau neu adnoddau wrth gynllunio, monitro a gwerthuso canlyniadau
18. manteision adnabod ac atgyfnerthu ymdrechion, cryfderau a chynnydd teuluoedd
19. sut mae gofyn am gymorth wrth weithio gyda theuluoedd mewn cymunedau

20. y cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer gweithio gyda theuluoedd mewn cymunedau
21. theorïau sy’n berthnasol i weithio gyda theuluoedd mewn cymunedau
22. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a’r canllawiau perthnasol ar gyfer gweithio gyda theuluoedd mewn cymunedau
23. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth weithio gyda theuluoedd mewn cymunedau
24. sut mae eich profiadau personol a’ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth weithio gyda theuluoedd mewn cymunedau, a sut i fynd i'r afael â hyn
25. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth weithio gyda theuluoedd mewn cymunedau

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

Gweithio gyda theuluoedd mewn cymunedau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD372 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Gweithio gyda theuluoedd mewn cymunedau, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |